Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant sylweddol

## Ysgol Uwchradd Caergybi

Caergybi
Ynys Môn
LL65 1NP

Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Uwchradd Caergybi wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion ar ôl yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella presenoldeb a phrydlondeb

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi rhoi ffocws craff a strategol ar wella presenoldeb ysgol gyfan, gan sefydlu dull systematig a chydlynus i hyrwyddo presenoldeb a mynd i'r afael ag absenoldeb. Erbyn hyn, mae systemau olrhain cadarn i fonitro presenoldeb a phrydlondeb. Mae rolau wedi eu diffinio'n glir a chyfarfodydd rheolaidd ar gyfer arweinwyr ar bob lefel yn sicrhau cyfeiriad clir ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn dadansoddi data presenoldeb yn drylwyr ac yn rheolaidd, ac yn rhoi ffocws cryf ar bresenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae arweinwyr canol yn cyfrannu'n effeithiol at fonitro presenoldeb, a chaiff prosesau dyddiol cyson i fynd i'r afael ag absenoldeb a phrydlondeb eu cymhwyso'n dda, gan arwain at welliannau mesuradwy. Cynorthwyir athrawon i ddefnyddio amser tiwtor yn bwrpasol, gan ddefnyddio data perthnasol i hwyluso trafodaethau â ffocws gyda disgyblion, gan gryfhau ac ychwanegu at waith arweinwyr bugeiliol ymhellach.

Ceir tystiolaeth glir o gydweithio buddiol ag asiantaethau allanol i gefnogi teuluoedd bregus. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiadau mewn absenoldebau parhaus a hwyrni. Mae cynlluniau a thargedau unigol teilwredig ac effeithiol ar gyfer ychydig o ddisgyblion wedi gwella presenoldeb ymhellach, yn enwedig mewn grwpiau blwyddyn hŷn. Mae presenoldeb cyffredinol wedi gwella'n sylweddol o 82.3% yn 2023–2024 i 87.5% yn 2024–2025. Mae data heb ei wirio ar gyfer 2025-2026 yn dangos bod presenoldeb yn aros fwy neu lai'r un fath â'r un cyfnod y llynedd. Mae presenoldeb ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n sylweddol o 72% i 81% ac mae bellach yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae data heb ei wirio diweddar yn dangos mwy o welliant o 2.3 pwynt canran ar draws pob grŵp blwyddyn ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

Gostyngodd cyfradd absenoldebau parhaus ar y trothwy 20% a 10%, fel ei gilydd, rhwng 2024 a 2025. Mae data heb ei wirio yn ystod y flwyddyn yn awgrymu gwelliannau pellach.

Er gwaethaf y tueddiadau cadarnhaol hyn, mae presenoldeb cyffredinol yn parhau'n isel ac nid yw'n cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg.

## A2. Gwella ansawdd yr addysgu, yn enwedig lefel yr her a gynigir i ddisgyblion

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n fuddiol ar wella ansawdd yr addysgu. Maent wedi cyflwyno strategaethau ysgol gyfan i'w defnyddio mewn gwersi ar draws y cwricwlwm, ac wedi darparu dysgu proffesiynol defnyddiol i gynorthwyo athrawon i ddatblygu'r rhain. Bu ffocws ysgol gyfan hefyd ar sicrhau cyfleoedd ar gyfer datblygu llafaredd disgyblion a darparu amser digonol iddynt ymateb i adborth ysgrifenedig. Mae gwaith yr ysgol i gynyddu lefel yr her a gynigir i ddisgyblion yn datblygu'n addas, er mai megis dechrau datblygu y mae.

Mae llawer o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref. Maent yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol, yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynnal perthynas waith gref â nhw. O ganlyniad i hyn, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol yn eu dysgu ac yn cydweithio'n dda â chyfoedion. Nid yw ychydig iawn o athrawon yn mynd i'r afael â diffyg ymgysylltu, cynnydd araf ac ymddygiad gwael mewn dosbarthiadau yn ddigon da.

At ei gilydd, mae llawer o athrawon yn dangos cynllunio cadarn ar gyfer cynnydd disgyblion mewn gwybodaeth a dealltwriaeth bwnc, ac yn gosod gweithgareddau addas i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llafaredd. Maent yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ar ddechrau'r wers ac yn caniatáu amser i ddisgyblion werthuso'u cynnydd eu hunain yn erbyn y rhain ar ddiwedd gwersi. Mae lleiafrif o athrawon yn darparu gweithgareddau cychwynnol a gweithgareddau galw i gof defnyddiol i helpu ennyn diddordeb disgyblion mewn dysgu, ac yn aml, mae disgyblion yn dangos eu bod yn galw i gof yn dda ac yn cymhwyso'u gwybodaeth yn dda i gyd-destunau newydd. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd cynhyrchiol o adnoddau addysgu a dysgu o ansawdd da. Mewn ychydig o adrannau, hyd yn oed yn y gwersi cryfaf, mae'r gorddefnydd o sgaffaldiau a thaflenni gwaith yn rhwystro cynnydd ac annibyniaeth disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mewn ychydig o achosion, mae diffygion yng nghynllunio athrawon. Yn yr achosion hyn:

- nid yw athrawon wedi ystyried yn ddigon gofalus beth maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu, ei wybod neu'i gyflawni
- mae tasgau wedi eu cynllunio'n wael ac nid ydynt yn adeiladu ar ei gilydd yn gydlynus, maent yn parhau'n rhy hir, neu maent yn ailadroddus neu'n anniddorol
- nid yw tasgau siarad yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da, sy'n rhwystro'u cyfraniad at drafodaethau

- mewn ychydig iawn o achosion, mae gweithgareddau yn ddibwrpas ac nid ydynt yn cael eu rheoli’n dda. Mae hyn yn achosi i ddisgyblion wneud cynnydd cyfyngedig

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau addas o ddisgyblion o ran ymddygiad ac ymgysylltiad. Mae gan lawer ohonynt ddisgwyliadau priodol o ran cynnydd disgyblion, ac maent yn darparu tasgau sy’n addas o heriol. Mae’r athrawon hyn yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, yn modelu atebion yn dda ac yn rhoi enghreifftiau defnyddiol. Mae athrawon mewn gwersi Cymraeg yn gwneud defnydd rhagorol o’r iaith darged. Mae llawer o athrawon yn gweithredu’r strategaeth ysgol gyfan i fodelu disgyblion ac ansawdd gwaith yn llwyddiannus trwy gynnwys enghreifftiau da i ddisgyblion eu dadansoddi cyn cwblhau’r dasg. Fodd bynnag, nid yw ychydig o athrawon yn esbonio cysyniadau na phrosesau yn ddigon da nac yn modelu disgwyliadau. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn holi disgyblion yn rheolaidd i wirio’u dealltwriaeth. Nid yw ychydig o athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn gwrando’n ofalus neu’n talu sylw, ac yn aml, maent ond yn gofyn ychydig o gwestiynau sylfaenol i alw i gof ar lefel dosbarth cyfan. Mae hyn yn eu hatal rhag cael amgyffrediad cadarn o ddealltwriaeth a chynnydd disgyblion.

Mewn lleiafrif o achosion, yn sgil holi effeithiol gan athrawon, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn yr achosion hyn, mae athrawon:

- yn procio ac yn herio disgyblion i feddwl yn ddyfnach neu ymhelaethu ymhellach ar eu hatebion trwy ddarparu enghreifftiau a dewisiadau eraill
- yn caniatáu amser meddwl buddiol i ddisgyblion ateb cwestiynau yn llawn neu ystyried eu syniadau ymhellach
- yn darparu cwestiynau dan arweiniad ar gyfer disgyblion sy’n ei chael yn anodd dadansoddi, gan sicrhau eu bod yn teilwra’u cwestiynau yn dda i allu a chymhwysedd y disgyblion

Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynorthwyo disgyblion yn dda wrth iddynt weithio. Maent yn mynd i’r afael yn ddefnyddiol â chamdybiaethau ac yn oedi gweithgareddau i wirio dealltwriaeth a chynnydd.

Mae amrywiad yn ansawdd ac effaith adborth athrawon ar waith ysgrifenedig disgyblion o fewn ac ar draws adrannau. Ym mwyafrif yr achosion, mae adborth athrawon yn glir ac yn creu effaith. Maent yn rhoi adborth pwrpasol ar waith ysgrifenedig disgyblion, yn cynnwys crynodebau clir o beth maent wedi’i wneud yn dda a beth dylent ei wneud i wella. Mae’r athrawon hyn yn caniatáu amser digonol i ddisgyblion wella’u gwaith, ac mae disgyblion yn ymateb yn addas ac yn gwneud gwaith ‘atgyweirio’ yn briodol, ar y cyfan. Mewn lleiafrif o achosion, lle mae adborth yn cael effaith gyfyngedig, mae athrawon yn rhoi sylwadau arwynebol sydd naill ai’n generig neu’n rhy eang, yn rhy gadarnhaol neu ddim yn ddigon diagnostig. Yn yr achosion hyn, nid yw disgyblion yn cwblhau’r tasgau ‘atgyweirio’ bob amser neu mae eu hymatebion yn fyr iawn. Mae athrawon iaith yn cywiro gwallau sillafu,

atalnodi a gramadeg, fel mater o drefn, ond mae gormod o anghysondeb ar draws pynciau eraill.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu a'r asesu wedi gwella o gymharu ag adeg yr arolygiad craidd.

## A3. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd, darllen a rhifedd disgyblion

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi gweithio'n briodol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafaredd, darllen a rhifedd disgyblion. Caiff cydlynwyr llythrennedd a rhifedd eu cefnogi'n addas gan uwch arweinydd a phartneriaid allanol i'w helpu i gynllunio ar gyfer gwella. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd a nodi ac adolygu camau gweithredu. Mae arweinwyr wedi darparu dysgu proffesiynol buddiol i bob un o'r staff ar rai agweddau ar lythrennedd, ac arweiniad eang i adrannau perthnasol ar ddatblygu rhifedd. Er gwaethaf y camau gweithredu hyn, bu cynnydd araf mewn ychydig o agweddau, yn enwedig o ran cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen uwch disgyblion, a chyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu datblygiad medrau llafaredd disgyblion yn effeithiol, gan roi dull ysgol gyfan cydlynus ar waith trwy ddysgu proffesiynol a strategaethau targedig. Mae deialog bwrpasol bellach yn nodwedd gref mewn gwersi, ac yn amlwg ar draws llawer o adrannau. O ganlyniad i'r ffocws manylach ar ddatblygu llafaredd, mewn llawer o wersi, caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau gwrando a siarad. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn rhugl gan ddefnyddio ystod eang o derminoleg pwnc a geirfa gyffredinol. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn huawdl ac yn defnyddio ystod eang o iaith soffistigedig i esbonio'u meddyliau a'u syniadau.

Mae arweinwyr wedi darparu dysgu proffesiynol addas ar gyfer staff i ddatblygu medrau darllen sylfaenol, yn cynnwys hyfforddiant darllen dan arweiniad, gyda phwyslais clir ar wella rhuglder disgyblion a dyfnhau eu hamgyffrediad. Maent wedi rhoi ystod ffocysedig o strategaethau darllen ar waith sydd wedi eu llywio gan dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu ymddygiadau darllen disgyblion trwy fabwysiadu dulliau fel rhannu geiriau yn sillafau, torri geiriau cymhleth i lawr a 'dweud y gair yn araf'. Mae disgwyliadau clir i adrannau ddefnyddio strategaethau darllen sy'n datblygu rhuglder ac amgyffrediad disgyblion, yn cynnwys defnyddio holi dan arweiniad a therminoleg allweddol i gefnogi dealltwriaeth o destunau sy'n benodol i bwnc. O ganlyniad i'r ffocws ar ddatblygu medrau darllen sylfaenol, mae llawer o athrawon bellach yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gasglu gwybodaeth o ystod o destunau sy'n benodol i bwnc. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llithrddarllen ac yn sganio darnau darllen yn llwyddiannus i gael gwybodaeth, ac yn anodi testunau yn fedrus. Mae lleiafrif ohonynt yn crynhoi negeseuon

allweddol oddi mewn iddynt yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen uwch disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol.

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cynyddu'r ffocws ar ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn llawer o bynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr wedi darparu dysgu ac arweiniad proffesiynol i helpu athrawon i ddeall sut i ymdrin â rhai agweddau ar rifedd tra'n alinio â gwaith yr adran fathemateg.

Maent yn parhau i gefnogi a monitro adrannau i gefnogi eu cynllunio. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn o hyd, ac o ganlyniad, mae'n rhy gynnar i werthuso ansawdd y ddarpariaeth ac yn arbennig ei heffaith ar safonau disgyblion a'u cynnydd mewn rhifedd.

Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd i gyd-destunau bob dydd mewn gwersi mathemateg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn, yn cynnwys trin data, deall rhif, mesur siapiau, algebra a ffracsiynau. Mewn pynciau perthnasol eraill, nid yw athrawon yn darparu tasgau priodol sy'n gyfoethog o ran rhifedd i ddisgyblion neu maent yn gosod tasgau nad ydynt yn ddigon heriol.

### A4. Gwella hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, gan sicrhau bod arweinwyr yn gwerthuso darpariaeth yn sgil ei heffaith ar gynnydd a lles disgyblion

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi mireinio a chryfhau ei phrosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn sylweddol. Erbyn hyn, mae mwy o bwyslais ar werthuso gwaith yr ysgol ar sail ei effaith ar ddysgu disgyblion, sy'n galluogi arweinwyr i nodi'r meysydd i'w gwella yn fwy cywir.

Mae'r 'Prosesau Gwella Ansawdd', sef adolygiadau ysgol gyfan bob tymor, yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i roi gwerthusiad cynhwysfawr o waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn gweithredu ar y canfyddiadau'n dda ac yn darparu cymorth a hyfforddiant i staff fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella. Maent yn myfyrio'n addas ar y cynnydd penodol a wnaed yn erbyn unrhyw ganfyddiadau o werthusiadau neu hyfforddiant blaenorol. Mae Prosesau Gwella Ansawdd hefyd yn cynnwys partneriaid allanol sy'n darparu eu gwerthusiadau eu hunain, yn ogystal â gwiriad defnyddiol o safbwyntiau'r ysgol.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio data yn effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio'u canfyddiadau i gynllunio'n dda ar gyfer gwella, er enghraifft wrth dargedu disgyblion ar gyfer ymyriadau neu wneud addasiadau i'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr bugeiliol yn defnyddio data yn bwrpasol ac yn aml i'w helpu i olrhain a mynd i'r afael â phresenoldeb gwael a monitro lles disgyblion. Mae arweinwyr canol yn gwerthuso gwaith eu hadrannau trwy adolygiadau llyfrau, arsylwadau gwersi a chyfweliadau â disgyblion. Maent yn canolbwyntio'n briodol ar yr arfer orau a beth sydd angen mwy o

sylw. Mae arweinwyr yn ystyried effaith eu gweithredoedd ar gynnydd disgyblion yn briodol.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn cynllunio ar gyfer gwella yn fanwl ac yn darparu camau gweithredu clir yn erbyn pob argymhelliad o'r arolygiad craidd. Maent yn casglu tystiolaeth uniongyrchol yn gysylltiedig â'u gweithredoedd ac yn mesur cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant addas. Mae eu hadolygiadau tymhorol o gynnydd yn erbyn eu cynlluniau gwella yn werthusol ac wedi eu meintioli, lle bo'n briodol, gyda ffocws addas ar yr effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae cynllunio adrannol ac ysgol gyfan ar gyfer gwella yn cyd-fynd yn agos iawn ac yn ymateb yn dda i ganfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae amrywioldeb o hyd o ran pa mor dda y mae arweinwyr yn gosod meini prawf llwyddiant clir ac yn sicrhau bod camau gweithredu yn cael effaith wirioneddol ar gynnydd disgyblion.

At ei gilydd, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar wella agweddau pwysig ar waith yr ysgol ers yr arolygiad craidd, yn cynnwys presenoldeb, ansawdd yr addysgu a datblygu llafaredd disgyblion.

## A5. Sicrhau bod y corff llywodraethol yn cynnig her addas i arweinwyr

Ers yr arolygiad craidd, gwnaed llawer o newidiadau i gyfansoddiad y corff llywodraethol. Mae sawl aelod newydd wedi dod ag arbenigedd sylweddol mewn meysydd allweddol ac wedi cryfhau gwaith y llywodraethwyr. Yn ychwanegol, mae llywodraethwyr wedi elwa ar gymorth ac arweiniad allanol ar sut i weithio'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol. Maent yn cael digonedd o gyfleoedd i gymryd rhan yng ngwaith yr ysgol, a rhoddir arweiniad gwerthfawr iddynt ar sut i gyflawni eu rolau a beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt wrth ymweld â'r ysgol neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthuso. Mae enwi llywodraethwyr cyswllt ar gyfer pob argymhelliad wedi arwain at oruchwyliaeth strategol fanylach o feysydd sydd angen eu gwella.

Mae cofnodion cyfarfodydd y corff llywodraethol a phwyllgorau yn dangos lefelau gwell o her werthusol a thrafodaethau trylwyr. Mae llywodraethwyr yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn gynyddol am gynnydd ac effaith. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth fwy cyson o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu, yn enwedig o ran meysydd blaenoriaeth. Er bod llywodraethwyr yn cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd nag ar adeg yr arolygiad craidd, mae eu dealltwriaeth o effaith gwelliannau'r ysgol ar gynnydd a lles disgyblion yn amrywiol.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.